**Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru**
**Microsoft Teams**
**Dydd Iau 23 Hydref 2025 10:00 – 12:00**

## Cofnodion

### Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Jane Hutt AS | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip (Cadeirydd) |
| Ifan Charles | Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys |
| Mark Hobrough | Prif Gwnstabl Heddlu Gwent |
| Amanda Blakeman | Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru |
| Jeremy Vaughan | Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru |
| Dafydd Llywelyn | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Emma Wools | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Eleri Thomas | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Wayne Jones | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Umar Hussain | Prif Swyddog Cyllid, Heddlu De Cymru |
| Kate Jackson | Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Mike Connolly | Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru |
| Sasha Yilmaz | Pennaeth Trosedd a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Claire Russell-Griffiths | Uwch-reolwr, y Tîm Troseddu a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Leanne Lewis | Rheolwr, y Tîm Troseddu a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Kathryn Jenkins | Prif Swyddog Diogelwch, Llywodraeth Cymru |
| Martyn Gunter | Pennaeth Cyfoethogi ac Ymgysylltu, Llywodraeth Cymru |
| Padraig McNamara | Pennaeth Iechyd Meddwl a Grwpiau sy'n Agored i Niwed, Llywodraeth Cymru |
| Joanne Hopkins | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Ian Barrow | Cyfarwyddwr Gweithredol Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi |
| Rachael Millar | Y Tîm Diwygio Heddlu ar y Cyd, y Swyddfa Gartref |
| Harry Gerrard | Swyddog Datganoli, Tîm y Swyddfa Gartref yng Nghymru |
| Gregg Dyer | Pennaeth Materion Domestig, Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| Naomi Alleyne | Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Corfforaethol (Polisi), CLlLC |
| Mark Brace | Pennaeth y Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel, CLlLC |
| Sian Curley | Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Lee Jones | Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Stephen Hughes | Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Paul Morris | Pennaeth Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Stacey Evans | Rheolwr Polisi Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Cymru, Plismona yng Nghymru |
| Joanna Huddleston | Gweinyddydd, Uned Gyswllt yr Heddlu |

Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Jane Mudd | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Judith Paget | Cyfarwyddwr Cyffredinol HSSG, Prif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru |
| Amy Rees | Prif Weithredwr, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi |
| Helen Hill | Rheolwr Busnes a Datblygu Rhwydweithiau, Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel, CLlLC |
| Tracy Cooper | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Jenny Hopkins | Prif Erlynydd y Goron, Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| David Holloway-Young | Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu De Cymru |

| Camau gweithredu yn codi o'r cyfarfod | |
|---|---|
| Swyddfa Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip i drefnu cyfarfod â Sarah Murphy AS a Dawn Bowden AS i drafod cyllid ar gyfer rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru (WSAS). | CSSJTCW |
| Bydd Jane Hutt AS yn ystyried cyfleoedd yn y dyfodol i dynnu sylw at y rôl bwysig y mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ei chwarae yn ein cymunedau yng Nghymru. | CSSJTCW |

## 1. Gair o Groeso ac Anerchiad gan y Cadeirydd

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol. Nododd nad oedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru nac Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru yn gallu ymuno ond roedd yn falch o nodi bod y Gweinidog Plismona, Sarah Jones AS, sydd newydd ei phenodi, wedi cadarnhau y bydd yn bresennol yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2025. Nododd ei bod wedi cyfarfod â hi yn ddiweddar a arweiniodd at gyfarfod cyflwyniadol adeiladol iawn. Nododd y Cadeirydd hefyd pa mor bwysig yw Gwasanaeth Coffa Cenedlaethol yr Heddlu i gofio am ddewrder Swyddogion yr Heddlu yn ogystal â chofio am deuluoedd sydd wedi colli anwyliaid o ganlyniad i'w gweithgareddau gweithredol a'r bygythiadau y maent yn eu hwynebu.

Llongyfarchodd Ifan Charles ar gael ei benodi'n Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys.

Cydnabu'r Cadeirydd yr ymosodiad erchyll diweddar yn Synagog Cynulleidfa Hebrëig Heaton Park ym Manceinion a nododd fod ei meddyliau gyda'r dioddefwyr, eu teuluoedd a'r Gymuned Iddewig gyfan ar yr adeg hon. Diolchodd i Plismona yng Nghymru am roi tawelwch meddwl a darparu patrolau i Synagogau yng Nghymru yn ystod yr wythnosau diwethaf. Pwysleisiodd fod yr amddiffyniad a'r undod gweladwy yn creu neges bwysig a'i bod wedi cael adborth cadarnhaol mewn perthynas â phresenoldeb yr heddlu, sy'n bwysig i sicrhau diogelwch cymunedol i gymunedau a chynulleidfaoedd Iddewig.

Nododd hefyd ei bod yn ddiolchgar am y cyfarfod a gynhaliwyd â Phrif Gwnstabliaid Cymru yn dilyn Rhaglen Panorama, 'Undercover in the Police'. Pwysleisiodd nad oes i gasineb at fenywod na grym gormodol unrhyw le mewn plismona a chydnabu fod Plismona yng Nghymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau eu bod yn cynnal y safonau uchaf a'u bod yn parhau i wasanaethu cymunedau â pharch ac urddas. Nododd fod Llywodraeth Cymru yn falch o'r partneriaethau y mae wedi'u meithrin â'r sector plismona ac y bydd yn parhau i gydweithio â'r sector plismona er mwyn cadw Cymru'n ddiogel.

## 2. Diwygio Tirwedd yr Heddlu: Y Sefyllfa Ddiweddaraf gan Plismona yng Nghymru

Nododd y Cadeirydd iddi godi'r pwnc hwn gyda'r Gweinidog Plismona a'r Ysgrifennydd Cartref, sydd wedi ymateb i'w llythyr i gadarnhau eu hymrwymiad i'r cyd-destun gwahanol ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder yng Nghymru.

**2.1.** Nododd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools eu bod yn dal i aros am y Papur Gwyn, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn. Rhoddodd Plismona yng Nghymru gyflwyniad ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd Cartref ar 19 Medi gyda rhestr o ofynion er mwyn sicrhau bod sefyllfa Cymru yn cael ei hintegreiddio'n well yn rhaglen Diwygio Tirwedd yr Heddlu. Amlinellodd y llythyr faterion yn ymwneud â chyllido cyfartal, cydnabod anghenion lleol penodol yng Nghymru a chydnabod Plismona a Throseddu yn ffurfiol yng Nghymru. Nododd, mewn ymateb i'r llythyr, fod Plismona yng Nghymru wedi cael gwahoddiad i fod yn aelodau o Fwrdd Diwygio Heddlu Traws-Systemau ac y bydd hi'n mynd i gyfarfodydd y Bwrdd fel Cadeirydd Plismona yng Nghymru ac y bydd Prif Gwnstabl Blakeman yn ei chefnogi fel Cadeirydd Grŵp Prif Swyddogion Cymru. Mae hefyd wedi cysylltu â Swyddogion yn y Swyddfa Gartref sy'n awyddus i drefnu cyfarfod i drafod y gofynion y cyfeirir atynt yn y llythyr a sut y gellir eu hintegreiddio yn y rhaglen ehangach.

**2.2.** O safbwynt Prif Gwnstabl, mae'r sefyllfa gyllido yn dal i fod yn hollbwysig ac, felly, mae Prif Gwnstabl Blakeman yn awyddus i weld adolygiad o'r fformiwla gyllido a'r ffordd y caiff cyllid ei ddosbarthu ledled Cymru. Nododd fod neilltuo cyllid er budd lleol yn hytrach na brigdorri cyllid ar gyfer ymgyrchoedd canolog yn bwysig am fod trefniadau'r praesept yn wahanol yng Nghymru a bod cymunedau yng Nghymru yn talu mwy am blismona yma. O ganlyniad, mae Plismona yng Nghymru yn awyddus i sicrhau bod y cyllid hwn yn cael ei fwydo'n ôl i gymunedau a bod gwasanaethau yn cael eu darparu iddynt mewn perthynas â blaenoriaethau lleol y bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn eu

cyflwyno i'w priod Banel Heddlu a Throseddu lleol.

Ychwanegodd, mewn perthynas â chynrychioli plismona yng Nghymru mewn trefniadau llywodraethu cenedlaethol, fod Plismona yng Nghymru yn awyddus i sicrhau safonau deddfwriaethol a meysydd busnes rheoleiddiol yn gymaradwy o ran fframweithiau perfformiad am fod gwahaniaeth yng Nghymru o ran gofynion deddfwriaethol.

Nododd Prif Gwnstabl Blakeman, am ein bod yn dal i aros am y Papur Gwyn, fod y sector plismona mewn sefyllfa anodd o ran ei allu ymateb i faterion a all fod wedi'u cynnwys yn y papur neu beidio. Mae'r gofynion sydd wedi'u cynnwys yn y llythyr yn set gyffredinol o egwyddorion a cheisiadau i'w hystyried am eu bod yn hanfodol o ran darparu gwasanaeth da i gymunedau yng Nghymru. Mae hefyd am sicrhau y bydd hyn ar gael yn ddwyieithog am y dylai fod ar gael i bob cymuned yng Nghymru.

**2.3.** Nododd y Cadeirydd, pan gyfarfu â'r Gweinidog Plismona, ei bod yn ymwybodol iawn o Dirwedd Cymru ond ei bod yn bwriadu ysgrifennu ati yn dilyn y cyfarfod hwn, gan dynnu sylw at y pwyntiau sydd wedi'u gwneud mewn perthynas â beth mae diwygio yn ei olygu i Gymru. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â darpariaeth ddwyieithog am y dylai gael ei gwarantu. Ychwanegodd fod angen sicrhau bod y diwygiadau yn gwella canlyniadau i gymunedau yng Nghymru am fod mesurau diogelu ar waith er mwyn sicrhau na chaiff blaenoriaethau lleol eu gwanhau mewn model wedi'i ranbartholi a bod Cymru yn cadw gwerth am arian o ystyried y gwahaniaeth yn nhrefniadau'r praesept.

**2.4.** Nododd Prif Gwnstabl Blakeman nad rhanbarth yw Cymru yn y ffordd y mae heddluoedd eraill wedi'u lleoli mewn rhanbarthau, gwlad yw Cymru y mae angen ei deall mewn perthynas â'r agenda ddiwygio yn ogystal ag unrhyw gynigion ar gyfer diwygio a gyflwynir.

**2.5.** Mae Prif Gwnstabl Vaughan o'r farn bod angen tynnu sylw at y ffaith bod y sefyllfa yn wahanol yng Nghymru yn barhaus am fod Plismona yng Nghymru yn gweithredu mewn tirwedd ddatganoledig. Nododd fod heddluoedd yng Nghymru yn cyfrif am bedwar allan o'r 43 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr a bod risg y gallent gael eu hystyried yn lleiafrif ac, felly, fod angen parhau i bwysleisio goblygiadau'r strategaeth ddatganoli yn Lloegr, ei goblygiadau i drefniadau llywodraethu plismona a'r hyn y gallai ei olygu i Gymru.

**2.6.** Tynnodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Llywelyn at rywfaint o'r gwaith y mae Swyddogion Llywodraeth Cymru yn ei wneud mewn perthynas â Thrawsnewid Cyfiawnder, gan gydweithio i drafod y posibilrwydd o ddatganoli Cyfiawnder Ieuenctid a'r Gwasanaeth Prawf. Mae'r gwaith hwn yn datblygu ochr yn ochr â'r agenda ddiwygio yng Nghymru a Lloegr ac, felly, mae angen bod yn barod ar gyfer datganoli Cyfiawnder Ieuenctid ac, o bosibl, y gwasanaeth prawf yng Nghymru. Mae trafodaethau hefyd yn mynd rhagddynt mewn perthynas â threfniadau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ym Manceinion sydd wedi'i gymeradwyo gan y Dirprwy Faer ym Manceinion sy'n gyfrifol am weithgarwch plismona a throseddu. Gallai hyn fod yn fater i Lywodraeth Cymru ei ystyried mewn perthynas â sut y bydd hyn yn cael ei reoli yn y dyfodol a rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru o ran comisiynu gwasanaethau.

**2.7.** Ymdriniodd Rachael Millar â rhai o'r pwyntiau a godwyd; o ran y Bwrdd Traws-Systemau yr oedd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools yn bresennol yn ei gyfarfod, nododd mai ymateb cyflym oedd hynny cyn yr ymateb ffurfiol i'r llythyr a ddisgwylir yn fuan. Cytunodd fod yr effaith ar gymunedau yn ffactor pwysig mewn perthynas â diwygiadau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd, gan ychwanegu y bydd y Ganolfan Blismona Genedlaethol yn edrych ar y ffordd y darperir y gwasanaethau canolog craidd sydd ar gael ym mhob heddlu er mwyn sicrhau mai canolbwyntio ar gymunedau lleol yw'r brif flaenoriaeth i heddluoedd. Ychwanegodd fod y Tîm Diwygio Heddlu ar y Cyd yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth â Chymru, sy'n amlwg, mae'n gobeithio, yn y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma, gan nodi ei bod yn bosibl bod y tîm eisoes wedi cyfarfod â llawer o'r rhai sy'n bresennol yn y cyfarfod gan gynnwys Swyddogion Llywodraeth Cymru ac Uned Gyswllt yr Heddlu ac y bydd yn parhau i weithio gyda Chymru.

**2.8.** Diolchodd y Cadeirydd i Rachael gan nodi ei bod yn falch ei bod yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod a helpu i sicrhau bod yr agenda ar gyfer Cymru yn cael ei deall. Mae'n gobeithio y bydd y Papur Gwyn ar gael cyn y cyfarfod ym mis Rhagfyr ond caiff Plismona yng Nghymru gyfle i ymgysylltu â'r Gweinidog Plismona yn y cyfarfod hwnnw.

## 3. Cyllido Plismona yng Nghymru: Pwysau a Goblygiadau

Nododd Mr Hussain na fyddai setliad manwl ar gael tan ganol-diwedd mis Rhagfyr 2025. Mae Pwyllgor Cyllid Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu wedi datblygu asesiad yn seiliedig ar gyhoeddiad y Canghellor ym mis Mehefin 2025. Mae'r wybodaeth hon wedi'i rhannu â'r Swyddfa Gartref yn y gobaith o ddylanwadu ar y ffordd y caiff yr amlen ei dosbarthu i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

Nododd fod adran fach iawn i blismona yn Llyfr Coch y Trysorlys sy'n cyfeirio at yr amlen sydd wedi'i dyrannu ar gyfer plismona dros y tair blynedd nesaf, sef £19.6bn a fydd yn cynyddu i tua £20.8bn. Deëllir bod y sefyllfa yn cynnwys tair agwedd, sef Grant Fformiwla'r Heddlu, cyllid ar gyfer Plismona Gwrthderfysgaeth yn ogystal â Phraesept yr Heddlu o ran faint o gyllid y gellir ei gynhyrchu drwy drethi lleol. Ychwanegodd, ar gyfer 2026/27, yr amcangyfrifir y bydd £1.2bn wedi'i neilltuo ar gyfer Plismona Gwrthderfysgaeth ac y daw tua £6.3bn o incwm Praesept y Dreth Gyngor, sy'n golygu y caiff tua £12bn ar gyfer Grant yr Heddlu ei ddosbarthu i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o £528m o gymharu â dyraniad y flwyddyn bresennol ac mae'n golygu y bydd £328m a £178m ar gael ar gyfer y ddwy flynedd nesaf, ond mae'r swm hwn yn lleihau o flwyddyn i flwyddyn. Ni chaiff y swm llawn o £12bn ei ddosbarthu i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu o ganlyniad i frigdorri gan y Swyddfa Gartref ar gyfer meysydd fel y Warant Plismona yn y Gymdogaeth a'r cynnydd mewn Yswiriant Gwladol. O ran y Warant Plismona yn y Gymdogaeth, cyfrifwyd am £200m o ran y tair mil gyntaf o swyddogion ond er mwyn cyflawni'r targed llawn, sef 13,000 o swyddogion, byddai angen £500m arall. Petai'r swm hwn yn dod o'r amlen, byddai'r bwlch cyllido yn cynyddu. Nid yw'r Warant Plismona yn y Gymdogaeth na'r Ymgyrch Strydoedd Mwy Diogel yn fforddiadwy gyda'r amlen sydd wedi'i chyhoeddi ar gyfer plismona. At hynny, mae cost ychwanegol, sef £300m, o ganlyniad i'r galw ychwanegol megis galwadau ac ymchwiliadau ychwanegol o ganlyniad i'r Adolygiad Dedfrydu, gan y rhagamcenir y bydd cyfraddau aildroseddu nodweddiadol yn cynyddu i tua 27%.

Esboniodd Mr Hussain fod Grant Fformiwla'r Heddlu wedi'i rewi ers bron i ddau ddegawd ac, felly, nad yw'n adlewyrchu'r galw lleol am wasanaethau na phwysau lleol, ond nad yw'n credu y bydd hyn yn newid dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Mae Cyflog yr Heddlu wedi'i setlo ar 4.2%, lle roedd y canllawiau blaenorol i heddluoedd ar gyfer cyllidebu yn nodi tua 2.8% Mae'r Swyddfa Gartref wedi cytuno i gyllido gwahaniaeth o saith mis ac, felly, bydd angen i weddill y Dyfarniad Cyflog gael ei ariannu o gyllideb yr heddlu. Felly, o ystyried y Dyfarniad Cyflog diwygiedig a chwyddiant, mae bwlch o £451m. Mae diffyg o £681m ar gyfer y tair blynedd nesaf gan gynnal gwasanaethau ar eu ffurf bresennol heb adlewyrchu unrhyw feichiau newydd. Mae sawl baich newydd megis prosiectau datgarboneiddio, technoleg, cyfraniadau YG cyflogwyr a chwyddiant contractau ac ati. Rhoddodd enghraifft o blismona yn dibynnu ar ynnau taser fel dull o ymyrraeth gyfreithiol; mae'r gwn taser diweddaraf a gymeradwywyd i'w ddefnyddio yn costio £4000 fesul dyfais. Mae tua 45,000 o ddyfeisiau yn cael eu defnyddio ledled Cymru a Lloegr a, phe baent i gyd yn cael eu newid mewn un flwyddyn, byddai hynny'n costio tua £180m. Byddai'r holl ofynion ychwanegol hyn yn arwain at gostau ychwanegol gwerth tua £1.5bn ar ben y £681m gan greu diffyg o £2bn ar gyfer y sector plismona dros y tair blynedd nesaf.

O ran tybiaethau ynghylch gwariant, gofynnwyd i heddluoedd gyflwyno eu cynlluniau tymor canolig a roddodd effaith cynnydd o 3.8%, gyda 3% y flwyddyn nesaf a 2.5% dros y ddwy flynedd ddilynol. Roedd Mr. Hussain o'r farn bod y ffigurau hyn yn amcangyfrifon eithaf ceidwadol o chwyddiant cyflogau posibl yn y dyfodol. Nododd fod chwyddiant yr Heddlu yn tueddu i fod tua 5% y flwyddyn oherwydd cyfarpar a chontractau arbenigol ond fod y rhain yn amcangyfrifon eithaf isel o chwyddiant. Mae rhai bylchau o hyd yn yr arolwg a gynhaliwyd gan Bwyllgor Cyllid Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, yn arbennig mewn perthynas â'r beichiau newydd ond gellir dibynnau ar y trosolwg cyffredinol o'r 43 o heddluoedd.

Mae'r sector plismona yn gwario tua £16bn ar gyflogau gyda'r mwyafrif helaeth o'r swm hwnnw yn cael ei wario ar Swyddogion yr Heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu; Mae Staff yr Heddlu yn tueddu i gyfrif am draean o'r costau gydag agweddau megis nwyddau neu wasanaethau, technoleg neu adeiladau ac ati yn costio tua £3bn. Mae'n bwysig nodi nad oes unrhyw gyllid yn yr amlen ar gyfer gwariant cyfalaf ac, felly, fod yn rhaid i'r seilwaith gael ei ariannu'n gyfan gwbl gan ddefnyddio refeniw ac, felly, y bydd yn rhai i'r sector plismona droi at fenthyca ac y bydd hynny'n cynyddu dros y tair blynedd nesaf.

Mae menter y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys ar y trywydd cywir ar hyn ar hyn o bryd a bydd gwaith yn

dechrau yn 2027; yr amcangyfrif ar gyfer Policing UK yw £563m dros bedair blynedd a'r amcangyfrif ar gyfer y rhaglenni cyfalaf presennol mewn heddluoedd dros bedair blynedd yw tua £100m ac, felly, mae bwlch o £400m o leiaf i gyflwyno system ddigidol newydd ar gyfer plismona yn lle'r system radio analog bresennol. Mae hyn yn golygu y bydd bwlch cyllidebol amrywiol mewn heddluoedd, gyda rhai heddluoedd yn wynebu bwlch cyllidebol o 11% ar hyn o bryd oherwydd cyllid wedi'i glustnodi. Fodd bynnag, ceir heddluoedd â llai o fwlch ar hyn o bryd o ganlyniad i gyfuniad o'r ffaith nad yw beichiau newydd wedi'u hystyried, bod yr heddluoedd hynny wedi elwa ar y fformiwla gyllido yn hanesyddol a bod sylfaen drethu well mewn ardaloedd cyfoethocach sy'n golygu bod heddluoedd yn defnyddio cronfeydd wrth gefn i gadw i fynd ond mae hyn yn effeithio ar gadernid ariannol hirdymor.

**3.1.** Dywedodd Kate Jackson fod y cyflwyniad wedi hoelio sylw ar faterion megis Dyfarniadau Cyflog yr Heddlu oherwydd, pan gaiff y newidiadau hyn eu cyhoeddi, mae'n effeithio ar bob heddlu mewn modd cymesur am fod chyflog yn cyfrif am tua 80% o wariant heddluoedd. Oherwydd y ffordd y mae'r grant yn cael ei ddosbarthu nid yw bob amser yn effeithio ar heddluoedd o safbwynt incwm, sy'n golygu bod angen darparu grant ychwanegol ac, felly, codi mwy ar drethdalwyr. Mater i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yw penderfynu faint o gynnydd a ddylai fod yn y dreth gyngor am fod dyletswydd arnynt i gydbwyso eu cyllideb heb roi gormod o faich ar drethdalwyr lleol. Lleisiodd bryderon ynghylch y ddibyniaeth gynyddol ar fenthyca i ariannu'r rhaglen gyfalaf am fod benthyca parhaus yn effeithio ar y gyllideb refeniw am flynyddoedd i ddod.**3.2.** Cytunodd y Cadeirydd gan nodi bod hyn yn destun pryder ond sicrhaodd y rhai a oedd yn bresennol fod Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ariannu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru. Ychwanegodd ei bod wedi codi mater cyllid y brifddinas gyda'r Gweinidog Plismona a nododd y bydd yn ystyried y mater hwn ac ymateb iddo.

**3.3.** Gofynnodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools a fyddai'n fuddiol petai Mr Hussain a Ms Jackson yn darparu rhywfaint o wybodaeth am y materion allweddol y cyfeiriwyd atynt am fod y Cadeirydd yn bwriadu ysgrifennu at y Gweinidog Plismona yn dilyn y cyfarfod hwn. Cytunodd y Cadeirydd.

**3.4.** Pwysleisiodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Llywelyn bwysigrwydd grantiau Llywodraeth Cymru a'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi Plismona yng Nghymru. Nododd ei fod yn ddiolchgar iawn am hyn ond y byddai diogelwch cyllid dros gyfnod hwy yn werthfawr iawn i'r sector plismona o ran cynllunio strategol.

**3.5.** Nododd y Cadeirydd fod mater Llywodraeth Cymru yn ariannu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi'i drafod gan gynnwys y gwerthusiad sy'n cael ei gynnal; yn ei barn hi, mae angen darparu adborth yn fwy cyhoeddus o ran pwysigrwydd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a nododd y bydd bwrw ymlaen â hyn y tu allan i'r cyfarfod.
**Cam Gweithredu: Bydd Jane Hutt AS yn ystyried cyfleoedd yn y dyfodol i dynnu sylw at y rôl bwysig y mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ei chwarae yn ein cymunedau yng Nghymru.**

**4. Plismona a Chynigion ar gyfer Cydweithredu â'r Sector Addysg**
Rhoddodd Martyn Gunter ddiweddariad ar y cydweithrediad rhwng Plismona a'r Sector Addysg a ddeilliodd o'r sesiwn Bord Gron ar Drais mewn Ysgolion a Cholegau a'r Uwchgynhadledd Genedlaethol ar Ymddygiad a gynhaliwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg. Yn yr uwchgynhadledd honno, ymrwymodd i atgyfnerthu gwaith cydweithredol rhwng ysgolion, Heddluoedd, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac Awdurdodau Lleol er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant a phobl ifanc. Mae'n credu y dylai unrhyw ddull gweithredu newydd gael ei gyflwyno drwy ethos Dull Ysgolion Bro Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i feithrin partneriaethau cryf â theuluoedd, gan ymateb i anghenion cymunedau lleol a chydweithio'n effeithiol â gwasanaethau eraill. Nododd fod gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd mewn perthynas ag unrhyw gydweithrediadau newydd a sut y dylid blaenoriaethu unrhyw fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru.

Esboniodd Martyn fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn awyddus i wella'r cydberthnasau gweladwy a gweithredol rhwng ysgolion, plismona yn y gymdogaeth a'r gymuned leol a wasanaethir ganddo gan ganolbwyntio'n benodol ar faterion a risgiau lleol sy'n bwysig i'r plant a'r bobl ifanc yn y gymuned honno yn ogystal â bygythiadau a phroblemau newydd y mae ysgolion yn eu hwynebu. Pwysleisiodd nad yw'r dull gweithredu newydd yn disodli'r cydberthnasau na'r gweithgarwch presennol rhwng heddluoedd neu ysgolion nac ychwaith raglen flaenorol Ysgolion Cymru ac y dylid ystyried bod y cydweithrediad yn elfen hollbwysig wrth lywio gweithgarwch ymyrryd yn gynnar ac atal.

Esboniodd Martyn fod rhai syniadau cynnar wedi'u cyfnewid rhwng Uned Gyswllt yr Heddlu a chynrychiolwyr o Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'u bod yn gobeithio dychwelyd yn fuan gyda rhai cynigion pendant.

**4.1.** Diolchodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg am yr ymateb cadarnhaol i'r pryderon sy'n cael eu codi gan y sector ynghylch y newid cydberthynas y sector plismona ag ysgolion. Mae'n awyddus i ymdrin â'r ymarfer yn ofalus er mwyn sicrhau bod yr holl agweddau a nodwyd o ran opsiynau cyflawnadwy rhwng nawr a diwedd y flwyddyn ariannol yn faterion y gellir eu cynnal yn y tymor hwy. Yn ddiweddar, cynhaliodd ymgynghoriad â 5000 o bobl ifanc yn ardal De Cymru a nododd eu bod am weld gweithgarwch plismona yn digwydd mewn amgylchedd ysgol ac, felly, mae'n awyddus i fywiogi'r bartneriaeth hon mewn model sy'n addas i'r oes sydd ohoni.

**4.2.** Nododd Joanne Hopkins fod llawer o waith yn cael ei wneud yn y Tîm Atal Trais a Hyb ACE Cymru mewn perthynas ag ysgolion ar hyn o bryd ac, felly, gofynnodd am i Iechyd Cyhoeddus Cymru gael ei gynnwys mewn trafodaethau er mwyn sicrhau, pan gaiff gynnig ei wneud, ei fod yn Ystyriol o Drawma ac wedi'i lywio gan brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a'i fod yn cyd-fynd â'r darnau hynny o waith.

**5. Plismona a Chydweithrediad Iechyd: Arwain a Rheoli Rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru**

Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem, gan gydnabod pryderon parhaus ynghylch y trefniadau dros dro i gefnogi'r broses o drosglwyddo Canolfannau Atgyfeirio Ymosodol Rhywiol (SARCs) i Gyd-bwyllgor Comisiynu'r GIG. Mae'n credu bod y GIG bellach wedi darparu adnoddau penodedig i gefnogi'r gwaith ac yn ddiweddar cytunodd y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Troseddol, y Trefnydd a'r Prif Chwip ar becyn o gymorth ariannol er mwyn mynd i'r afael â phroblemau cyllido byrdymor sy'n ymwneud â chymorth therapiwtig. Nododd fod sicrwydd wedi'i roi y bydd Swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod â phob un o'r Byrddau Iechyd i ddarparu gwasanaeth SARC er mwyn sicrhau bod trefniadau lleol yn parhau i fod ar waith.

**5.1.** Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools o'r farn bod pwynt tyngedfennol wedi'i gyrraedd mewn rhaglen gymhleth a oedd wedi peri nifer o heriau ac, felly, mae'n falch bod monitro risgiau a phroblemau yn parhau i fod yr agenda. Esboniodd, er bod cynnydd wedi'i wneud, fod nifer o bryderon o hyd y mae'n gobeithio y bydd y bwrdd yn eu nodi.

**5.2.** Ategodd y Dirprwy Gomisiynydd Thomas bwynt Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools, gan nodi fod cryn gynnydd wedi'i wneud ers y cyfarfod diwethaf sydd i'w groesau'n fawr ond bod hyn wedi gofyn am ymdrech sylweddol barhau gan y sector plismona, yn arbennig tîm Cydweithredu Heddluoedd Cymru gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Guiney a Harri Evans-Mason. Nododd fod safle SARC Aberystwyth a'r Uned SARC Pediatrig yn Abertawe wedi'u lansio. Un o'r agweddau allweddol y maent yn ceisio eu cyflawni yn y rhaglen drawsnewid yw sicrhau y gall plant yn ne-orllewin Cymru fanteisio ar ddarpariaeth bediatrig. Dylai dinasyddion Cymru allu cael gafael ar y gwasanaeth hwn heb orfod rhyngweithio â'r sector plismona nac asiantaethau cyfiawnder troseddol. Nododd mai egwyddor sylfaenol yw hon. Fodd bynnag, mae cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth prif ganolfan a lloerennau ateb y galw, bod ganddo drefniadau llywodraethu cadarn a bod y llwybrau gofal a chymorth yn cael eu deall. Gofynnwyd i'r bwrdd geisio sicrwydd y bydd gwaith gyda Llywodraeth Cymru, Plismona yng Nghymru a'r GIG yn parhau i sicrhau'r cynnydd sydd ei angen.

Croesawodd newyddion bod cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer darparu gwasanaethau therapiwtig a gwasanaethau cwnsela ar gyfer 2025/26 ond y bydd Plismona yng Nghymru yn ceisio trefnu cyfarfod brys â Llywodraeth Cymru a'r GIG cyn cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru ym mis Rhagfyr er mwyn sicrhau y gallant fanteisio ar drefniadau ar gyfer 2026/27. Cydnabu nad ydynt yn debygol o fod mewn sefyllfa i allu cynnal ymarfer caffael llawn yn y cyfnod o amser sydd ar ôl.

Nododd y Dirprwy Gomisiynydd Thomas fod papur yn cael ei ddatblygu i Fwrdd y Cyd-bwyllgor Comisiynu y disgwylir iddo gyfarfod ym mis Tachwedd ond nad yw'r sector plismona wedi'i gynnwys yn y broses o ddatblygu cynnwys y papur ac, felly, y dylid rhoi digon o amser i Plismona yng Nghymru allu cyfrannu. Esboniodd fod Cyd-bwyllgor Comisiynu'r GIG hefyd wedi nodi ei fod yn bwriadu datblygu manylebau gwasanaeth ar gyfer rhaglen WSAS ar ôl troed Cymru gyfan ac y byddai hyn yn cynnwys Heddlu Gogledd Cymru yn y gwaith o ddatblygu manylebau ond nododd nad oedd hyn wedi digwydd hy yma. Bydd Cyd-

bwyllgor Comisiynu'r GIG yn cynnal sawl gweithdy ym mis Rhagfyr ar ôl i hynny gael ei gymeradwyo yng nghyfarfod y bwrdd ym mis Tachwedd a gofynnodd a allai Plismona yng Nghymru gael ei gynrychioli'n briodol yn y gweithdai hyn.

**5.3.** Tynnodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools sylw at ddau bwynt sy'n dal i achosi pryder, sef: pryderon ynghylch cylch gwaith a chwmpas y rhaglen ac a yw'n cael ei deall, gan nodi, mewn cyfarfodydd diweddar, fod cynrychiolwyr o'r sector iechyd wedi cyfeirio at y rhaglen fel partneriaeth SARC nad yw'n cydnabod y model cymunedol ehangach sy'n hanfodol i hyn. Roedd hi eisoes wedi nodi ei bod yn bwriadu ysgrifennu at y Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn ailddatgan yr ymrwymiad ond nad oedd wedi cael ymateb eto. Mae a wnelo'r ail fater â chyllid: mae'n ceisio sicrwydd ar hyn gan y sector iechyd y caiff y model atebolrwydd a chyllid ei gydlunio rhwng partneriaid a bod y broses o wneud penderfyniadau ariannol yn cael ei wneud o fewn yr amser penodedig o ran pennu cyllideb.

**5.4.** Nododd y Cadeirydd iddi gyfarfod Emma Williams, y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn Llywodraeth Cymru i drafod WSAS a'i bod wedi cyfarfod cyn hynny â Judith Paget, Amelia John a Matt Downton ym mis Awst 2025. Mae'n ymwybodol bod cynnydd wedi'i wneud ers i'r cyfarfod hwn gael ei gynnal ond nododd y bydd yn bwydo hyn yn ôl i Swyddogion Llywodraeth Cymru ac yn trefnu cyfarfod â Sarah Murphy AS a Dawn Bowden AS cyn cyfarfod nesaf Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru er mwyn edrych ar yr anghenion cyllido ar gyfer y flwyddyn nesaf.
**Cam Gweithredu: Swyddfa Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip i drefnu cyfarfod â Sarah Murphy AS a Dawn Bowden AS i drafod cyllid ar gyfer rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru (WSAS).**

**5.5.** Cydnabu Padraig McNamara y pwyntiau sydd wedi'u codi a nododd y bydd yn hysbysu'r Cyd-bwyllgor Comisiynu am y pryderon sydd wedi'u mynegi. Fodd bynnag, mae o'r farn bod ymrwymiad gan y sector iechyd sy'n cael ei ddatblygu y mae'n gobeithio ei gwblhau yng nghyfarfod Bwrdd y Cyd-bwyllgor Comisiynu ym mis Tachwedd. Esboniodd fod y trefniadau yn cael eu hadolygu mewn perthynas â throsglwyddo perchnogaeth ffurfiol ar y maes o PNI i'r Cyd-bwyllgor Comisiynu. Nododd fod WSAS wedi'i chynnwys yn y cyfarfodydd Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig (IQBD) y mae Byrddau Iechyd yn eu cynnal yn ogystal â chyfarfodydd IQBD y mae Llywodraeth Cymru yn eu cynnal â'r Cyd-bwyllgor Comisiynu yn ogystal â chyfarfodydd perfformiad ac uwchgyfeirio misol arferol rhwng Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd. Pwysleisiodd y bydd yn parhau i fonitro hyn wrth iddynt symud drwy'r trefniadau llywodraethu newydd.

**6. Y Bil Dedfrydu a'r Adolygiad o'r Llysoedd Troseddol: Gofynion a Phwysau Posibl ar Plismona yng Nghymru**
Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem, gan nodi bod y Gweinidog Plismona wedi ysgrifennu ati gan nodi bod yr Ysgrifennydd Cartref wedi cyhoeddi'r bwriad i sefydlu Menter Gaeaf a fydd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â dwyn o siopau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Unwaith y bydd y manylion wedi'u penderfynu'n derfynol, cânt eu rhannu â hi. Cododd y Cadeirydd bryderon y mae Plismona yng Nghymru wedi'u rhannu mewn perthynas â'r Bil Dedfrydu gyda'r Gweinidog Plismona hefyd. Cadarnhaodd y Gweinidog Plismona fod y Swyddfa Gartref yn cydweithio â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i ystyried yr effaith sy'n benodol i'r sector plismona.

**6.1.** Ategodd Prif Gwnstabl Blakeman y pryderon y cyfeiriwyd atynt gan nodi bod dau adolygiad, sef yr Adolygiad Dedfrydu Annibynnol a'r Adolygiad Annibynnol o Lysoedd Troseddol. O ran yr Adolygiad Dedfrydu Annibynnol, ym mis Hydref 2024, penododd yr Arglwydd Ganghellor David Gauke i arwain yr adolygiad y bwriadwyd iddo fynd i'r afael ag argyfwng capasiti carchardai. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ar 22 Mai 2025 gyda 44 o argymhellion mewn 9 pennod. Y penodau perthnasol mewn perthynas â hyn yw 'Revisiting the Statutory Purpose of Sentencing', 'Reducing the Reliance on Custody' and 'Incentivising Progression from Custody to Community'.

Rhai meysydd sy'n destun pryder mewn perthynas â hyn yw dedfrydau byr sy'n cyflwyno dyletswydd i lysoedd ohirio dedfrydau o 1 flwyddyn neu lai o garchar ar gyfer troseddwr sy'n oedolyn oni fydd amgylchiadau eithriadol yn gymwys ac sy'n symud tuag at fodel cynnydd a enillwyd. Mae tair rhan i'r model hwn sy'n cynnwys carchar, goruchwyliaeth ddwys a'r rhan olaf lle mae dedfryd yn cael ei bwrw yn y gymuned, ac ar gyfer pob trosedd arall mae dedfryd ddwyran, sef 50% yn y carchar a 50% o oruchwyliaeth ddwys. Nododd fod eithriadau yn ogystal ag eitemau ychwanegol fel torri gorchymyn llys, troseddau sy'n cynnwys trais yn erbyn menywod a merched ac ymddygiad gwael yn y ddalfa ac ati.

Mae'r sector plismona yn rhagweld yr ymdrinnir â'r rhai a fyddai'n cael eu dedfrydu i gyfnodau byr yn y carchar, yn y gymuned a bod cyfraddau troseddu yn debygol o gynyddu. Felly, mae'r sector plismona yn rhagweld y bydd baich ychwanegol ac effeithiau o ran ymddiriedaeth a hyder yn ogystal â gwariant ychwanegol a fydd hefyd yn lleihau'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer ymdrin â materion eraill.

Nododd Prif Gwnstabl Blakeman fod y sector plismona wedi gwneud cynnydd da o ran materion megis troseddau manwerthu drwy ddefnyddio dedfrydau a gorchmynion atal a thrwy reoli troseddwyr ac, felly, fod hyn yn destun cryn bryder. Nododd fod trafodaeth yn mynd rhagddi yng Nghyngor Prif Swyddogion yr Heddlu, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref ond ei bod o'r farn bod gwaith yn dal i fynd rhagddo'n gyflym iawn.

**6.2.** Nododd Ian Barrow fod ansicrwydd o hyd ynghylch cynigion terfynol ond roedd yn cytuno bod gwaith yn mynd rhagddo'n cyflym. Nododd fod yr effeithiau posibl wedi'u trafod yng nghyfarfod Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ym mis Hydref a bod asesiad effaith manwl wedi'i ddosbarthu i Gadeiryddion Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol er mwyn ysgogi trafodaethau lleol. Yn ei farn ef, mae angen uwchgyfeirio trafodaeth ar gyfer cyfarfod nesaf Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru pan ddylai rhagor o fanylion fod ar gael o ran yr effeithiau ond cydnabu y bydd heriau ac mai'r ffordd orau o ddelio â nhw yw gweithio mewn partneriaeth a sicrhau bod pob partner yn ymwybodol o'r effaith ar bob un o'u hasiantaethau.

**6.3.** Nododd Mike Connolly, o ran ymgysylltu ar lefel strategol, fod y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi sefydlu Tasglu Gweithredu Gweithredol ar gyfer Cyfiawnder Troseddol sy'n cyfarfod bob wythnos. Bydd y tasglu hwn yn ystyried effaith a goblygiadau'r Adolygiad Dedfrydu Annibynnol a'r Adolygiad Annibynnol o Lysoedd Troseddol maes o law. Prif Gwnstabl Cynorthwyol Jason Devonport yw cynrychiolydd y sector plismona ar y tasglu ac mae wedi cyflwyno sylwadau, y mae Prif Gwnstabl Blakeman wedi cyfeirio at lawer ohonynt.

**6.4.** Pwysleisiodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Wools bwysigrwydd ymyriadau a gwasanaethau adsefydlu a'r angen i atgyfnerthu trefniadau partneriaeth a chydgomisiynu am fod nifer o'r gwasanaethau y bydd angen i droseddwyr eu defnyddio yn y gymuned yn wasanaethau yn y cyd-destun datganoledig. Yn ei barn hi, mae angen mabwysiadu dull gweithredu cryfach a mwy strategol er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau a gallu mewn gwasanaethau i ddelio â throseddwyr.

**6.5.** Gorffennodd Prif Gwnstabl Blakeman drwy nodi bod y sector plismona yn rhagweld cynnydd sylweddol mewn cyfraddau troseddu os na fydd cyllid ar gael er mwyn iddo allu ymateb iddo, gyda chost amcangyfrifedig i'r sector plismona o £300m.

## 7. Materion i'w Diweddaru/Nodi: GanBwyll

Nododd y Cadeirydd fod Prif Gwnstabl Blakeman wedi codi nifer o faterion gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth ym mis Medi a bod cyfarfod dilynol wedi'i gynnal rhwng GanBwyll, Awdurdodau Lleol a Swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn trafod eu dull o ymdrin â'r camau nesaf ond ei bod yn hanfodol sicrhau bod trafodaethau yn parhau.

## 7b.) Cyllid ar gyfer Recriwtio yn Gymraeg

Nododd Prif Gwnstabl Blakeman ei bod wedi gwneud rhywfaint o waith gyda'r Coleg Plismona er mwyn ceisio sicrhau bod yr elfen asesu ar-lein o broses recriwtio'r heddlu ar gael yn Gymraeg. Mae'r Coleg wedi nodi ffi sylweddol y byddai am ei chael am ddarparu hyn sy'n fwy na £200,000 gyda chostau ychwanegol sylweddol i ddilyn.

Esboniodd fod Prif Gwnstabliaid yn ystyried a oes opsiynau eraill ar gael i'r sector plismona. Mae wedi trefnu cyfarfod â Phrif Gwnstabl Stephens yng Nghyngor Prif Swyddogion yr Heddlu ac Andy Marsh o'r Coleg Plismona er mwyn trafod hyn am ei bod o'r farn y dylai'r opsiwn fod ar gael i ymgeiswyr a chymunedau.

Byddai unrhyw gymorth y gellid ei ddarparu mewn perthynas â hyn i'w groesawu am ei bod o'r farn mai darpariaeth bwysig ydyw. Nododd i'r mater hwn gael ei godi mewn sesiwn Cwestiynau i'r Prif Weinidog ond nad yw'n siŵr a oes unrhyw fwriad i wneud gwaith ar hyn o ran craffu gan Gomisiynydd y Gymraeg, sy'n cytuno â'r gwaith hwn ac sydd wedi ysgrifennu at y Coleg Plismona.

**7.b.1.** Nododd y Cadeirydd ei bod yn falch bod Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn ymgysylltu â'r Coleg Plismona am ei bod o'r farn y bydd hyn yn cael effaith ac, felly, y bydd yn sicrhau bod camau yn cael eu cymryd er mwyn sicrhau bod asesiadau ar gael yn Gymraeg ac y bydd yn parhau i fonitro hyn.

**7.b.2.** Nododd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Llywelyn fod hyn wrth wraidd y rheswm pam mae'n rhaid i Plismona yng Nghymru tynnu sylw at y gwahaniaethau penodol yng Nghymru yn barhaus. Wrth ddisgrifio datblygiad y Ganolfan Blismona Genedlaethol arfaethedig mae pob un o'r ffactorau hyn yn berthnasol, nid dim ond goblygiadau'r Gymraeg ac a fydd cynllun Iaith Gymraeg ar waith ar gyfer y Ganolfan Blismona Genedlaethol. Nododd fod gan y Swyddfa Gartref gynllun Iaith Gymraeg hefyd. O ran caffael, mae Deddf Caffael Llywodraeth Cymru 2023 yn cynnwys elfennau o werth cymdeithasol ac effaith economaidd i Gymru ac, felly, ar gyfer Canolfan Blismona Genedlaethol Cymru a Lloegr, bydd angen i Plismona yng Nghymru godi'r materion hyn eto o ran yr effaith ar gymunedau a chyfleoedd yng Nghymru.

### 7c.) Diweddariad ar Densiynau Cymunedol

Diolchodd y Cadeirydd i Brif Gwnstabl Vaughan am gynnig cymorth i wella trefniadau presennol ymhellach, gan dynnu sylw at y ffaith bod materion yn ymwneud â cham-drin ar-lein, tensiynau cynyddol a mwy o gamwybodaeth ac ati ar sail Cymru gyfan ar draws pob plaid wleidyddol. Cododd bryderon ynghylch Asesiad diweddar o Fygythiadau gan y Ganolfan Dadansoddi Terfysgaeth ar y Cyd a nododd fod y risg i Aelodau o Senedd Cymru yn is na'r risg i Aelodau o Senedd y DU.

Dechreuodd Prif Gwnstabl Vaughan drwy ddisgrifio effaith y digwyddiad ym Manceinion ar gymunedau Iddewig. Anfonodd Heddlu De Cymru gerbydau ymateb arfog ar unwaith i'r synagogau a nododd fod ymgysylltu da iawn yn digwydd gyda chymunedau a'i fod yn awyddus i weld hyn yn parhau.

Nododd fod gan y sector plismona rôl unigryw i'w chwarae o ran ymateb i gasineb sy'n cael ei ysgogi gan y cyfryngau cymdeithasol yn bennaf, yn ei farn ef. Esboniodd ei fod yn ymwybodol bod heddluoedd eraill yn gwneud gwaith tebyg ond nododd fod Heddlu De Cymru wedi dwyn ynghyd Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol yn ei ardal ar ddau achlysur gwahanol a'u bod bellach wedi cytuno i gyfarfod bob chwe wythnos hyd y gellir rhagweld. Maent wrthi'n cwblhau cytundeb cydweithio sy'n nodi trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd o ran rhannu gwybodaeth, gwybodaeth o ddata, hyder y cyhoedd a chyfathrebu.

Yn ogystal â chynrychioli Prif Gwnstabliaid Cymru wrth ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, mae hefyd yn ymgysylltu â CLlIC a disgwylir iddo gynnal gweithdai gyda nhw mewn perthynas â diogelwch a diogeled yn ogystal ag ymgysylltu â'r Bwrdd Rheoli Etholiadol. Nododd fod y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Simon Belcher wedi bod yn arwain y mater hwn ar ei ran a bod llawer o weithgarwch wedi bod yn y maes hwn ond ei fod am sicrhau bod unigolion yn deall beth i'w wneud os bydd ganddynt bryderon penodol.

**7.c.1** Esboniodd Naomi Alleyne fod y pedair Cymdeithas Llywodraeth Leol ledled y DU wedi cyfarfod yn ddiweddar ac wedi cyhoeddi datganiad yn cadarnhau unwaith eto eu hymrwymiad i gydweithio er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ogystal â gweithio'n agos gyda'r sector plismona mewn perthynas â sut y gallant gefnogi cynghorwyr. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru a CLILC wedi trefnu gweithdai ar fynd i'r afael â chamwybodaeth, twyllwybodaeth a gwybodaeth faleisus, gan ganolbwyntio ar gydweithio a rhannu gwybodaeth i fynd i'r afael â phroblemau ar y cyd.

### 8. Cofnodion y cyfarfod blaenorol (17/07/25)

Roedd pawb yn cytuno bod cofnodion y cyfarfod ar 17 Gorffennaf 2025 yn gywir. Nodwyd bod Cam Gweithredu 1 o'r cyfarfod blaenorol yn parhau i fynd rhagddo, bydd y papur yn barod erbyn y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2025.

### 9. Unrhyw Fater Arall

Ni chodwyd unrhyw fater arall.

**Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**

Dydd Iau 18 Rhagfyr 2025 – 13:30 i 15:30